

Darfod yn dda

“Oherwydd y baich ysgafn o orthrymder sydd arnom yn awr, darparu y mae, y tu hwnt i bob mesur, bwysau tragwyddol o ogoniant i ni.” (adn. 17)

Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 4:1–18 ac yna myfyrio

Y bedwaredd elfen i stori dda yw y dadleniad – y datrysiad terfynol. Rwyf newydd ddarfod darllen *The God of Small Things* gan Arundhati Roy, a enillodd iddo'r wobr Booker yn 1997. Er bod adrannau yn y llyfr sy'n annerbyniol i Gristion, eto i gyd cefais fy nghyfareddu gan ei defnydd o iaith, y ffordd yr oedd hi'n tynnu gorchudd ar ôl gorchudd o ddirgelwch i ffwrdd, a'i gallu i gynhyrfu'r emosiynau gyda geiriau. Dyma gampwaith o ysgrifennu yn wir. Ond y peth gorau yn y llyfr (yn fy nhyb i) yw ei ddadleniad.

Wedi ei ddarllen, allwn i ddim peidio â gofyn y cwestiwn: Sut fydd stori fy mywyd fy hun yn darfod? Pa sgiliau arbennig fydd yr Awdur Dwyfol yn eu defnyddio wrth roi manylion terfynol fy naratif personol i at ei gilydd? Wrth i mi fyfyrio fel hyn, fe gofiais ddyfyniad o waith C.S. Lewis, a ddaeth yn fyw iawn i mi: “Rydym yn teithio gyda'n cefnau at yr injan... does gennym ni ddim amgyffred o faint o'r daith yr ydym wedi ei gwneud... mae stori yr union fath o beth na ellir mo'i deall nes clywed y cyfan ohoni.”

Dydw i ddim yn gwybod sut fydd Duw yn sgwennu tudalennau olaf fy stori bersonol i, ond rwyf yn sicr o hyn: bydd yn bwrw cysgod dros unrhyw beth a lunnir gan hyd yn oed y nofelydd mwyaf. Rwy'n ymddiried yn ei allu i wneud hyn. Felly hefyd, fy nghyfaill, y dylet tithau. Oherwydd y ffaith bod dy fywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw, elli di ddim bod yn ddim ond ystadegyn yn y raddfa torpriad, yn un sydd yn dioddef o iselder, yn greadur annysgedig nad yw yn ffitio i mewn; drama yw dy fywyd, ac efallai fod rhai o'r digwyddiadau a'r areithiau gorau eto i'w hysgrifennu. G.K. Chesterton a ddywedodd: “Fedrwech chi ddim darfod sym y ffordd liciwch chi, ond mi fedrwech chi ddarfod stori y ffordd liciwch chi.” Mae holl straeon Duw yn darfod yn dda.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Cor. 15:42–44;
Math. 25:14–30

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Duw yn dwyn stori bywyd y crediniwr i ben?
2. Pa gyfrifoldeb sydd gennym ni yn stori ein bywyd ein hunain?

Gweddi Dad nefol cariadus, er dy fod ti'n gallu troi popeth er daioni, helpa fi i weld bod gennyf i beth cyfrifoldeb hefyd. Bydded i mi fyw mewn ffordd nad yw'n rhwystr i ti sgwennu'r diweddglo rwyt ti wedi ei gynllunio ar gyfer fy stori i. Amen.